# RHAGLEN DERYN CYNNAR PLWS SIR FYNWY

National Autistic Society | EarlyBird Plus Licensed

**Rhaglen DerynCynnar Plws**

Rhaglen tri mis ar gyfer rhieni/gofalwyr plant (4-9 oed) gyda diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth neu sy'n mynd drwy'r broses ddiagnosis gyda diagnosis tebygol o awtistiaeth tebygol yn yr arfaeth. Hefyd ar gyfer aelodau staff ysgolion neu weithwyr proffesiynol arall sy'n cefnogi eu plant.

## Beth yw'r Rhaglen DerynCynnar Plws?

Mae ein rhaglen DerynCynnar Plws yn rhaglen hyfforddiant tri mis, yn cynnwys wyth sesiwn grŵp a dau gyswllt/ymweld arall. Mae'n rhoi cefnogaeth i'r rhieni/gofalwyr hynny y gall eu plant fod wedi cael diagnosis hwyrach.

## Pwy all fynychu'r rhaglen?

Gall dau oedolyn allweddol o deuluoedd plentyn rhwng pedair a naw oed gyda diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth fynychu'r rhaglen. Caiff tri lle eu dyrannu i bob teulu, dau ar gyfer rhieni/gofalwyr ac un ar gyfer aelod staff ysgol neu weithiwr proffesiynol allweddol arall sy'n gweithio gyda neu'n cefnogi eu plentyn.

## Pryd a ble y caiff y sesiynau eu cynnal?

Caiff yr wyth sesiwn grŵp eu cynnal yn wythnosol mewn safle yn Sir Fynwy ar yr un diwrnod bob wythnos. Mae pob sesiwn yn parhau tua 2½ awr. Gall cysylltiadau/ymweliadau cartref ddigwydd naill ai ar-lein, dros y ffôn neu yng nghartref y rhiant/gofalwr neu safle cyfleus arall.

## Beth yw nodau'r rhaglen?

- Grymuso rhieni/gofalwyr a staff ysgolion.
- Annog dull gweithredu cyson rhwng y cartref a'r ysgol drwy hyfforddi rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol gyda'i gilydd.

## Am beth fyddwn ni'n dysgu?

Bydd dull DerynCynnar Plws y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol yn eich helpu i:

- Gwella eich dealltwriaeth o awtistiaeth eich plant
- Gwella cyfathrebu eich plentyn.
- Datblygu strategaethau i ragatal ymddygiad problem a/neu reoli y rhai sy'n digwydd.

## Tîm DerynCynnar Plws – Sir Fynwy

Caiff y rhaglen ei rhedeg gan Seicolegwyr Addysgol o Sir Fynwy (Stephen Trow a Tanya Walters) a'r Athrawes Ymgynghorol Anghenion Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar (Ruth Davies). Mae gennym i gyd brofiad a dealltwriaeth o awtistiaeth ac ieuenctid gydag awtistiaeth mewn ysgolion a'r gymuned. Cawsom i gyd ein hyfforddi gan Ganolfan DerynCynnar y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol yn Ne Swydd Efrog i fedru cyflawni'r rhaglen.



**SStephen Trow – Seicolegydd Addysgol**

Rwyf wedi gweithio fel Seicolegydd Addysgol yn Sir Fynwy ers 2007 a gweithiais yng Nghaerffili a Swydd Lincoln cyn hynny. Rwyf wedi gweithio gydag amrywiaeth o blant gydag awtistiaeth/anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, eu teuluoedd a lleoliadau. Rwyf wedi bod yn rhan o dîm yn cyflwyno'r rhaglen DerynCynnar Plws  yn Sir Fynwy ers 2014. Rwy'n wirioneddol fwynhau y cyswllt a'r meithrin hyder a ddaw o'r rhaglen ar gyfer rhieni/gofalwyr a staff.



**Ruth Davies – Athrawes Ymgynghorol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar**

Ymunais ag awdurdod lleol Sir Fynwy gan weithio o fewn ac wedyn yn rheoli'r Tîm Anawsterau Dysgu Penodol. Fe wnes hefyd ddod yn Swyddog Cyswllt Anghenion Addysgol Arbennig Blynyddoedd Cynnar, gan weithio gyda lleoliadau nas cynhelir yn Sir Fynwy. O fis Medi 2021, roeddwn yn un o'r Athrawon Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar gan weithio'n llwyr o fewn yr ardal. Mae gennyf brofiad dysgu eang ac rwyf wedi gweithio gyda phobl ifanc gydag amrywiaeth o wahaniaethau, yn cynnwys rhai gydag Awtistiaeth. Hyfforddais i gyflwyno DerynCynnar Plws yn 2014 ac wedi bod yn helpu i gyflwyno'r rhaglen bob blwyddyn ers hynny. Mae'n wych gweitthio gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i'w helpu drwy DerynCynnar Plws.



**Tanya Walters – Seicolegydd Addysgol**

Rwyf wedi gweithio gyda phlant a phobl ifanc gydag awtistiaeth ac anghenion cyfathrebu am dros 25 mlynedd, fel athrawes a hefyd fel Seicolegydd Addysgol.  Rwyf wedi gweithio gyda Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Sir Fynwy ers Ionawr 2020 ac wedi cynnal nifer o gyrsiau DerynCynnar Plws wyneb yn wyneb ar ar-lein. Mae awtistiaeth yn faes o ddiddordeb neilltuol i fi ac rwy'n llwyr fwynhau cefnogi teuluoedd/lleoliadau gyda'u plant awtistig arbennig iawn ac unigryw.

**Cysylltwch â stephentrow@monmouthshire.gov.uk 01633 644524 i gael mwy o wybodaeth.**